

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Cymunedau
Dyddiad y cyfarfod:	1 Gorffennaf 2021
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Tony Thomas / Liz Grieve
Awdur yr Adroddiad:	Geoff Davies
Teitl	Arolwg Tenantiaid Tai Cyngor

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae Tai Cymunedol yn cynnal arolwg o holl denantiaid tai cyngor pob 2 flynedd. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth o'r arolwg tenantiaid cyngor a chynigion Tai Cymunedol i ymateb i'r canfyddiadau.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

I gael dealltwriaeth o farn tenantiaid am eu cartrefi a chymdogaeth, yn arbennig yng nghyd-destun y cyfnodau clo COVID-19 a'r effaith ar ein tenantiaid.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau yn darparu mewnbwn i gamau arfaethedig y Gwasanaeth i ymateb i ganfyddiadau'r Arolwg fydd yn cefnogi darparu blaenoriaethau corfforaethol "Tai a Chymunedau Cryf" y Cyngor.

4. Manylion yr Adroddiad

Mae Atodiad 1 yn adroddiad manwl i'r ymatebion a roddir gan denantiaid y cyngor i'r arolwg a gynhaliwyd yn yr Hydref/Gaeaf 2020/21. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r prif ganfyddiadau ac yn amlinellu'r hyn a gynigir er mwyn ymateb i'r adborth hwn.

Ym mis Hydref 2020, cafodd arolwg STAR (Tenantiaid a Phreswylwyr Safonol) ei anfon i bob tŷ cyngor yn Sir Ddinbych. O'r 3,277 arolwg a anfonwyd, derbyniwyd ymatebion gan 381 o aelwydydd sy'n gyfradd ymateb 11%.

Mae'r arolwg, a gyhoeddir bob 2 flynedd, yn gofyn am adborth manwl ar ystod eang o feysydd gwasanaeth a ddarperir gan Dai Cymunedol. Diben yr arolwg yw asesu boddhad cyffredinol, ceisio adborth ar flaenoriaethau i'n tenantiaid a helpu i lywio cynlluniau ar gyfer darparu gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae bellach yn ofyniad i holl gynghorau a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig (LCC) yng Nghymru gynnal arolwg STAR bob dwy flynedd.

Mae Llywodraeth Cymru (LIC) wedi cyfeirio at Sir Ddinbych fel enghraifft o arferion da o ran defnyddio a gweithredu STAR yn briodol. Ym mis Chwefror 2021 roeddem wedi darparu digwyddiad Cymru gyfan gyda Llywodraeth Cymru i landlordiaid cymdeithasol yng Nghymru.

Mae boddhad cyffredinol gyda'r mesurau allweddol yn llai na'r arolwg blaenorol yn 2019. Fodd bynnag, dylid nodi er bod yna gynnydd mewn anfodlonrwydd bu cynnydd hefyd yn yr ymatebion nad oeddent yn fodlon nac yn anfodlon, sy'n dangos nad oedd tenantiaid yn gallu rhoi barn am y gwasanaeth oherwydd cyfnod clo pandemig Covid.

Er ein bod yn disgwyl y byddai'n fwy anodd i denantiaid ymateb fel arfer yn ystod y pandemig Covid, roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig cynnal yr arolwg pan oedd i fod i gael ei gynnal er mwyn helpu i lywio'r cynlluniau ar gyfer adferiad ar ôl y pandemig.

Mae wedi cael ei nodi gan Lywodraeth Cymru wrth gymharu data landlordiaid, bod y pandemig wedi effeithio ar y data a gyflenwyd gan Sir Ddinbych pan oedd llawer o landlordiaid cymdeithasol eraill wedi cyflwyno data cyn-Covid. Mewn ymateb i hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i holl gynghorau a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) ailadrodd yr arolwg STAR eto ar gyfer 2022. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ailadrodd yr arolwg eto yn ddiweddarach eleni.

Prif Ganlyniadau Boddhad

Mae crynodeb o'r ymatebion boddhad craidd isod -

- Dywedodd 77% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon gydag ansawdd cyffredinol eu cartref.
- Dywedodd 80% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod yr Adran Dai yn darparu cartref sy'n saff a diogel.
- Dywedodd 76% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon ei fod yn hawdd delio â'r Adran Dai

- Dywedodd 77% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod yr Adran Dai yn gwrando ar eu safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt
- Dywedodd 79% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'u cymdogaeth fel lle i fyw.
- Dywedodd 78% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu rhent yn cynnig gwerth am arian
- Dywedodd 59% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon bod eu tâl gwasanaeth yn cynnig gwerth am arian
- Dywedodd 71% o'n tenantiaid eu bod yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol yr oedd yr Adran Dai yn ei ddarparu.

Blaenoriaethau

Gwnaethom ofyn i denantiaid restru eu 3 blaenoriaeth gwasanaeth uchaf. Mewn arolygon blaenorol mae'r 3 blaenoriaeth uchaf bob amser wedi bod yn ansawdd yr eiddo a'r gwasanaeth atgyweirio fodd bynnag y tro hwn, roedd 78% o ymatebwyr yn teimlo mai'r blaenoriaethau yw:

- Teimlo'n Ddiogel a Diogelwch
- Cymdogaeth a Chymuned
- Cymdogion Da

Mae hyn yn awgrymu newid ffocws o'r cartref i'r gymuned leol yn ystod y cyfnodau clo. Mae gwybodaeth ar flaenoriaethau wedi'i amlinellu yn y tabl (tudalen 8 o atodiad 1) gyda dadansoddiad o ardal (tudalen 27 atodiad 1) er bod y rhain yn gyson yn gyffredinol ar draws pob ardal yn y sir.

Meysydd i'w Gwella

Pan ofynnwyd am y prif feysydd ar gyfer gwella, yr ymatebion uchaf oedd -

- Gwella ansawdd y cartref (mewnol) – 15%
- Gwella cyfathrebu – 14%
- Gwella ansawdd yr eiddo (allanol) – 9%

Pan wnaethom ddadansoddi'r manylion ar hyn, y prif faterion a godwyd gydag ansawdd mewnol y tai oedd tamprwydd a gwresogi.

O ran gwella cyfathrebu, roedd ymatebwyr yn dweud y dylem ymateb yn gynt i ymholiadau.

Dadansoddi Ardal

Mae adborth yn cael ei ddadansoddi fesul ardal i weld a oes unrhyw wahaniaethau sylweddol o ran sut mae tenantiaid yn teimlo mewn rhannau gwahanol o'r sir (tudalen 29 o atodiad 1). Yn gyffredinol, mae yna themâu tebyg yn ymwneud â blaenoriaeth "Teimlo'n Ddiogel a Diogelwch" ym mhob ardal. O ran ardaloedd ble gallwn wella, mae'n amlwg bod yna amrywiadau yn Ninbych o ran atgyweirio a chyfathrebu yng Nghorwen, Llangollen a Rhuthun.

Cymharu â 2019

Mae'r wybodaeth a'r graffiau (ar dudalen 31 o atodiad 1) yn dangos y gymhariaeth rhwng yr arolwg hwn a'r un mwyaf diweddar a gynhaliwyd yn 2019.

Mae yna ostyngiad wedi bod mewn boddhad ar draws holl rannau o'r arolwg.

Thema	Boddhaol 2021	Newid +/- 2019	Anfodlon +/- newid	Dim +/- newid
Bodlon gydag ansawdd cyffredinol y cartref	77%	-13%	+8%	+5%
Bodlon ein bod yn gwrando ac yn gweithredu	67%	-8%	+4%	+4%
Bodlon gyda'r gymdogaeth	79%	-9%	+3%	+6%
Bodlon fod rhent yn darparu gwerth am arian	79%	-9%	+6%	+3%
Bodlon fod tâl gwasanaeth yn darparu gwerth am	59%	-13%	+6%	+7%

Bodlon gyda'r gwasanaeth atgyweirio cyffredinol	71%	-18%	+9%	+9%
---	-----	------	-----	-----

Ein Hymateb

Mae "cynllun gweithredu adborth Gweithredu STAR" wedi'i gynnwys yn y Cynllun Busnes Cymunedau a Chwsmeriaid ar gyfer 2021/22.

Mae'r cynllun gweithredu wedi'i gynnwys yn Atodiad 2.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae pawb yn cael eu cefnogi i fyw mewn cartrefi sy'n diwallu eu hanghenion

Mae'r Cyngor yn gweithio gyda phobl a chymunedau i gynyddu annibyniaeth a chadernid.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

Nid oes angen Asesiad o Effaith ar Les gan nad oes unrhyw newidiadau yn cael eu cynnig.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Mae'r adroddiad hwn yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau a bydd yn cael ei rannu gyda'r Ffederasiwn Tenantiaid (Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych)

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Y risg yw nad ydym yn ymateb i adborth gan denantiaid sy'n arwain at fwy o anfodlonrwydd.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae pwerau'r Pwyllgor Craffu mewn perthynas â'r mater hwn wedi'u pennu yn Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor.